**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 11 Mai 2015 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y bore.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. P R Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. R J Dutton | Cyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Datblygu); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam |
| Y Cyng. P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 2 CHWEFROR 2015

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 DIWEDDARIAD GAN WEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA

6.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ynghylch gwaith Gweithgor y Cynllun Gwella.

6.2 Roedd y gweithgor wedi cyfarfod ar dri achlysur, a hynny yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill, er mwyn ystyried a datblygu amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2016-17. Yn y cyfarfodydd, roedd yr Aelodau wedi cael cyflwyniadau manwl ar yr adolygiad risgiau a gynhaliwyd ac ar ddadansoddiad manwl o'r holl ddigwyddiadau rhwng 2009 a 2014. Trafodwyd yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gofal tân gan ddefnyddio'r system dyletswydd RDS, ynghyd â diogelwch tân a sut i ehangu rôl diffoddwyr tân. Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd wedi ysgogi trafodaethau helaeth ynglŷn â gwneud y defnydd gorau o adnoddau i ateb y risg, yn enwedig nawr fod yr Awdurdod yn gweithredu ar lai o gyllideb.

6.3 Dywedodd y Cyng. McGuill fod y gweithgor wedi ystyried ac archwilio'r wybodaeth yn fanwl ac mai calonogol oedd gwybod na fyddai unrhyw argymhellion a phenderfyniadau posibl wedi hynny yn cael eu gwneud heb ystyriaeth ddifrifol o'r holl oblygiadau. Manteisiodd y Cyng. McGuill ar y cyfle i sicrhau'r archwilydd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fod modd rhannu dogfennau gyda hi i ddangos lefel yr wybodaeth y buwyd yn ei ystyried. Ategwyd y sylwadau hyn gan aelodau eraill.

6.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cynnydd Gweithgor y Cynllun Gwella;**

**(ii) cefnogi'r cysyniad o ddarparu diffoddwyr tân yn hyblyg i gyd-fynd â lefelau'r risg;**

**(iii) annog yr Awdurdod Tân ac Achub i edrych ar agweddau ehangach ar ddiogelwch cymunedol.**

Ar yr adeg hon, newidiodd y Cadeirydd drefn yr agenda a gofyn am y cyflwyniad ar y Fflyd.

7 CYFLWYNIAD AR Y FFLYD

7.1 Rhoddodd Dave Bond, Rheolwr Fflyd y Gwasanaeth, gyflwyniad yn esbonio'r holl brif agweddau ar y gwaith a wneir yn adran y Fflyd.

7.2 Nodwyd bod prif swyddogaethau'r adran yn cynnwys dyluniad a manyleb peiriannau newydd, rheoli asedau mewn perthynas â holl gerbydau a chyfarpar y Gwasanaeth, ynghyd â gwaith cynnal a chadw effeithlon a chost-effeithiol sy'n cael ei wneud yn fewnol pan fo modd, a hefyd rheoli tanwydd. Roedd y Fflyd wedi chwarae ei rhan yn cynorthwyo GTAGC i gael Gwobr Iechyd Corfforaethol Cymru - Platinwm o ganlyniad i'r mesurau amgylcheddol a gyflwynwyd dros y blynyddoedd i gynorthwyo'r Gwasanaeth i gael dull mwy iach ac eco-gyfeillgar ar gyfer cynnal a chadw ei gerbydau.

7.3 Mae Rheolwyr y Fflyd yn y tri GTA yng Nghymru yn ceisio gweithio gyda'i gilydd pan fo modd dan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol. Ar hyn o bryd mae gan yr adran ddau brentis ar leoliad pedair blynedd, ac ystyrir bod y cynllun prentisiaethau yn hanfodol er mwyn datblygu staff newydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

7.4 I ateb cwestiwn gan un o'r aelodau am nifer y cerbydau yn y Gwasanaeth, cadarnhawyd bod teclyn tracio yn yr holl gerbydau, a defnyddir yr wybodaeth i bennu defnydd effeithlon a faint o fflyd sydd ei angen.

7.5 Dywedodd y PST fod adran y Fflyd wedi bod yn eithriadol o arloesol yn ei dulliau dros y blynyddoedd, a'r rheini hynny o fudd i'r Gwasanaeth, ac roedd hyn o ganlyniad i allu Mr Bond fel peiriannydd.

7.6 Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben drwy ddiolch i Mr Bond am gyflwyniad difyr a diolch iddo ef a staff y Fflyd am eu gwaith.

7.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 CYFLAWNI Â LLAI – AD-DREFNU'R GWEITHLU

8.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad drafft ar 'Gyflawni â Llai – ad-drefnu'r gweithlu' fel y cafodd ei lunio gan Swyddfa Archwilio Cymru, a gofynodd i Lisa Williams o Swyddfa Archwilio Cymru fynd â'r aelodau drwy'r adroddiad.

8.2 Esboniodd Ms Williams beth oedd cefndir yr adroddiad a bod darn tebyg o waith wedi cael ei gynnal ar gyfer awdurdodau lleol i edrych sut yr oedd sefydliadau'n ymdopi â llai o gyllideb a beth yw effaith hynny ar ddarparu gwasanaethau statudol. O ran yr awdurdodau tân ac achub, roedd swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru a'r GTA wedi penderfynu y dylai'r astudiaeth thematig ganolbwyntio ar weithwyr gan mai dyma'r hyn y mae'r Awdurdod yn gwario'i gyllideb arno fwyaf.

8.3 Atgoffodd y DBST yr aelodau mai un o'r prosiectau mwyaf yn ymwneud â gweithwyr oedd y prosiect cylchrestru, a oedd yn golygu newid y modd yr oedd diffoddwyr tân yn cylchrestru ar gyfer dyletswydd. Roedd hyn wedi gofyn am dîm prosiect yn ymchwilio i systemau shifftiau o fewn GTAau eraill yn y DU, cydweithio gyda chynrychiolwyr o Undeb yr FBU, a chynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r diffoddwyr tân ar orsafoedd. Roedd y swyddogion yn ystyried i hyn fod yn ddarn llwyddiannus o waith ond roedd ganddynt bryderon na fyddai gan brosiectau eraill i reoli newid yn y dyfodol yr un lefel o adnoddau i allu gwneud gwaith mor fanwl.

8.4 Esboniodd Ms Williams fod yr adroddiad a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi darlun cadarnhaol o'r prosiect ar y cyfan, a bod yr amcan o ad-drefnu'r gweithlu wedi cael ei gwblhau fel y dymunid. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at rai mân wendidau o ganlyniad i gyfyngiadau ar ddogfennau'r prosiect a oedd ar gael, ond yn cydnabod bod penderfyniadau ymarferol a phriodol wedi cael eu gwneud drwy gydol y prosiect.

8.5 I ateb cwestiwn gan un o'r aelodau, cadarnhaodd Ms Williams nad oedd y prinder dogfennau wedi peri i'r Swyddfa gael unrhyw bryderon penodol ynglŷn â phenderfyniadau a wnaed neu fod unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud yn amhriodol. Fodd bynnag, ystyrid bod y prinder dogfennau yn rhwystro'r swyddogion rhag gallu adfyfyrio ynghylch y gwaith a wnaed a'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol. Roedd Ms Williams yn cydnabod bod angen i argymhellion/cynigion y Swyddfa ar gyfer gwella fod yn ychwanegu gwerth i waith y Gwasanaeth heb ychwanegu cost.

8.6 Roedd yr aelodau'n poeni am gyhoeddi'r adroddiad gan nad oedd ei gynnwys yn adlewyrchu sylwadau Ms Williams uchod ac felly gallai'r adroddiad gael ei weld yn y cyd-destun anghywir gan y cyhoedd.

8.7 Pwysleisiodd y Cyng. McGuill eto ei bod, fel aelod o'r Awdurdod, yn hyderus fod y dogfennau a'r dadansoddi a welodd hi wedi bod yn ddigon trylwyr iddi hi deimlo'n gyfforddus ac i beidio â bod yn bryderus am waith yr ATA.

8.8 Ar ôl gwrando ar y drafodaeth, daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben a chynnig bod yr Aelodau'n cytuno fod y pwynt canlynol yn cael ei godi gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru drwy Ms Williams:

- o ystyried y sefyllfa ariannol bresennol oni fyddai'n fwy priodol i'r sefydliad wneud y defnydd gorau o'i adnoddau gwerthfawr a bod Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn y dull hwn ac yn cydnabod y dylent, wrth ystyried eu cynigion ar gyfer gwella, fod yn fodlon â'r hyn sy'n 'dderbyniol' yn eu tyb nhw yn yr amgylchiadau ariannol sydd ohoni yn hytrach na gwneud cynigion 'dymunol'.

8.9 **PENDERFYNWYD cytuno bod y pwynt uchod yn cael ei godi gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd sylw o'r adroddiad a'r cynigion ar gyfer gwella.**

9 RHEOLI RISGIAU STRATEGOL

9.1 Cyflwynodd y Rheolwraig Cynllunio Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i drefniadau newydd ar gyfer goruchwylio a rheoli risgiau strategol yr Awdurdod; a chyflwyno diffiniad o risg strategol i'w fabwysiadu gan yr Awdurdod.

9.2 Roedd yr aelodau eisoes wedi cael gwybod am gynlluniau i gyflwyno polisi newydd ar reoli risgiau strategol a chofrestr risgiau strategol i ymateb i adolygiad archwilio mewnol a wnaed ar drefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod. Y diffiniad o risg strategol a gynigir i'w fabwysiadu gan yr Awdurdod yw: "digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".

9.3 Cafodd yr aelodau wybod am y trefniadau arfaethedig ar gyfer cynnal lefelau priodol o drosolwg a rheolaeth o risgiau strategol yr Awdurdod. Byddai hyn yn cynnwys swyddogion yn sicrhau bod y risgiau strategol a ganfyddir yn cael eu rheoli yn unol â lefelau blaenoriaeth risgiau diffiniedig a'u hystyried fel rhan o waith penderfynu a chynllunio corfforaethol.

9.4 Oherwydd natur y gofrestr risgiau strategol, ni fyddai'n briodol nac yn ymarferol cyflwyno ei holl gynnwys mewn cyfarfodydd agored o'r Awdurdod, felly gofynnir i'r aelodau gytuno bod y Panel Gweithredol yn derbyn adroddiad cryno ar risg strategol o leiaf unwaith y flwyddyn, a bod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gweld manylion llawn y gofrestr yn rheolaidd gyda'r swyddogion. Byddai sicrwydd ychwanegol yn cael ei roi drwy adroddiadau archwilio mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw amgylchedd archwilio mewnol yr Awdurdod, gan gynnwys rheoli risgiau a'r trefniadau llywodraethu corfforaethol.

9.5 Bu'r aelodau'n trafod yr adroddiad, gan ofyn i adroddiad monitro gael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol ddwywaith y flwyddyn, sef yng nghyfarfodydd y Panel Gweithredol ym mis Mai a mis Hydref. Cadarnhaodd y Trysorydd y byddai hyn yn gwella llywodraethu corfforaethol a sicrwydd i'r aelodau ynglŷn â'r modd y mae'r sefydliad yn ystyried y risgiau.

9.6 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod fod y canlynol yn cael eu cymeradwyo:**

- **(i) y diffiniad o risg strategol a awgrymwyd, fel y nodwyd ym mharagraff 9.2, a**
- **(ii) y trefniadau arfaethedig ar gyfer cael trosolwg a rheolaeth o'r risgiau strategol sy'n wynebu'r Awdurdod, yn ddibynnol ar gyflwyno adroddiad i'r Panel Gweithredol yn y cyfarfodydd ym mis Mai a mis Hydref.**

10 TANAU CEFN GWLAD A THANAU GLASWELLT

10.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am weithgarwch diweddar mewn perthynas â thanau cefn gwlad a thanau glaswellt yng Ngogledd Cymru.

10.2 Oherwydd bod sylw ar y cyfryngau a chan wleidyddion i'r nifer o danau a gafodd eu cynnau'n fwriadol yn Ne Cymru, tawelodd y PSTC Fairhead feddyliau'r aelodau fod nifer y tanau cefn gwlad a thanau glaswellt yng Ngogledd Cymru yn ystod y gwanwyn eleni wedi cymharu'n fras â'r nifer yn y blynyddoedd blaenorol.

10.3 Nodwyd bod gostyngiad wedi bod yn y mathau hyn o danau yn y pum mlynedd ddiwethaf a bod GTA Gogledd Cymru wedi gwneud llawer o waith gyda thirfeddianwyr i roi gwybod iddynt am eu cyfrifoldebau wrth gynnau tanau i glirio llystyfiant oddi ar eu tir; roedd hyn wedi cynnwys hyrwyddo'r rhif ffôn i bobl ei ffonio pan fyddant yn bwriadu llosgi dan reolaeth, ac mae hyn yn helpu i osgoi gorfod troi allan yn ddiangen at danau i ymateb i alwadau a wnaed yn ddidwyll gan bobl yn poeni am y tân. I ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau am yr arian sy'n cael ei wario ar waith ataliol yn y maes hwn, esboniodd y PSTC Fairhead ei bod yn anodd mesur faint o danau a oedd wedi cael eu hatal oherwydd y gwaith hyrwyddo a hysbysu a wnaed. Teimlai'r aelodau fod nifer llai y galwadau a'r digwyddiadau dros y blynyddoedd wedi dangos bod gwerth gwario arian ar waith ataliol.

10.4 Mae GTA Gogledd Cymru a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn gweithio'n agos â Heddlu Gogledd Cymru gyda'r nod o barhau i leihau nifer yr achosion o danau cefn gwlad a thanau glaswellt yng Ngogledd Cymru.

10.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

11 CYLLIDEB YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2015-16 – PROSIECTAU ATEGOL – DIWEDDARIAD

11.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead wybod i'r Aelodau am effeithiau cychwynnol y penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 2 Rhagfyr 2014 ynghylch rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau arbenigol achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr, ac adolygu'r trefniadau ar gyfer galwadau sy'n deillio o larymau tân awtomatig.

11.2 Cyn rhoi'r gorau i'r gwasanaethau achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr ar 1 Ebrill 2015, roedd y swyddogion wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda sefydliadau y byddai hyn yn effeithio arnynt, megis y timau achub mynydd, a rhannwyd gwybodaeth gyda'r cyhoedd drwy wahanol ddigwyddiadau a chyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y newidiadau. Nodwyd nad oedd unrhyw alwadau wedi dod ynglŷn ag achub â rhaffau nac achub anifeiliaid mawr ers 1 Ebrill 2015 hyd at ddyddiad y cyfarfod.

11.3 O ran rhoi'r gorau i fynd at alwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig, sefydlwyd cynllun prosiect i ganolbwyntio ar gyfathrebu ynghylch y polisi newydd, diwygio polisïau a gweithdrefnau mewnol, a chwblhawyd y trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu. Ers 1af Ebrill, a hyd at ddyddiad y cyfarfod, cafwyd 78 o alwadau, nid oedd 73 o'r galwadau hynny wedi arwain at droi allan ac roedd 5 digwyddiad wedi derbyn llai o ymateb. Roedd yr adroddiad yn dweud bod arbediad o £6,357 o ganlyniad i beidio â throi allan at y 73 o ddigwyddiadau, ond cadarnhaodd y PSTC Fairhead yn y cyfarfod nad oedd hwn yn arbedion arian parod uniongyrchol.

11.4 Teimlai'r Aelodau fod yr adroddiad a'r ffigyrau a ddarparwyd yn rhai calonogol a **PHENDERFYNWYD nodi effaith cyflwyno'r polisïau newydd a gofyn am ddiweddariad pellach yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Hydref.**

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

12 GWEITHREDU DIWYDIANNOL

12.1 Rhoddodd y PST wybod i'r aelodau na fu unrhyw gyfnodau pellach o weithredu diwydiannol nac unrhyw uwchgyfeirio na newid, ac mae'r anghydfod yn dal yn ei le yn swyddogol ar lefel genedlaethol ac mae'r gweithredu nad yw'n streic (ASOS) yn dal yn ei le. Daeth y rheoliadau pensiwn newydd i rym ar 1 Ebrill ac mae'r ATA yn gweithio dan y rheoliadau hynny erbyn hyn. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd o'r blaen roedd Llywodraeth Cymru wedi dilyn dull gwahanol o ymdrin â'r materion sy'n destun anghydfod ac roedd, yn dilyn ymgynghoriad, wedi mabwysiadu cynllun a oedd hefyd wedi cael ei roi ar waith ar 1 Ebrill 2015.

12.2 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**